Upholding information rights Cynnal hawliau gwybodaeth

2nd Floor, Churchill House, Churchill Way, Cardiff, CF10 2HH
Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH
T. 0330 414 6421 E. wales@ico.org.uk / cymru@ico.org.uk
www.ico.org.uk

[redacted]
Swyddog Datgelu
Yr Uned Rheoli a Datgelu Data
Heddlu De Cymru
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU

Trwy'r ebost yn unig at: [redacted]

26 Awst 2022

Annwyl [redacted],

**Rhifau Cyfeirio Achos INV/0770/2020 ac INV/0610/2021**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod yr ICO bellach wedi cwblhau ei hymchwiliad i ddatgeliadau gwybodaeth bersonol gan Heddlu De Cymru ar ddau achlysur gwahanol: y cyntaf y rhoddwyd gwybod amdano oedd digwyddiad ym mis Ebrill 2020 (y digwyddiad cyntaf), ac mae'r ail yn ddigwyddiad sy'n hŷn mewn gwirionedd na'r cyntaf, a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020 (yr ail ddigwyddiad).

Yn fyr, fy nealltwriaeth i ar gyfer y digwyddiad cyntaf, cyfeirnod INV/0770/2020, yw bod hunaniaeth menyw wedi'i datgelu i bartner iddi yn dilyn ei chais am wybodaeth amdano ef o dan y Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS), sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cyfraith Clare. Roedd gan y partner euogfarnau blaenorol am drais ac ymosod yn rhywiol ac roedd yn cael ei reoli gan un o swyddogion Heddlu De Cymru a oedd yn gweithredu fel Rheolwr Troseddwr iddo. Yn y digwyddiad hwn datgelwyd pwy oedd y ceisydd yn ystod sgwrs rhwng y partner a'r Rheolwr Troseddwr. [redacted]

Yn yr ail ddigwyddiad, cyfeirnod INV/0610/2021, roedd hunaniaeth y testun data dan sylw wedi'i datgelu gan un o swyddogion yr heddlu ar ôl iddi wneud cais am wybodaeth o dan y Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw yn erbyn Plant (CSODS), sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cyfraith Sarah. Roedd y cais hwn yn ymwneud â throseddwr oedd yn bartner [redacted]. Cafodd hunaniaeth y testun data ei datgelu [redacted] gan un o swyddogion yr heddlu a aeth i'w heiddo yn ystod dyletswyddau diogelu o ganlyniad i'r cais CSODS.

We welcome correspondence in Welsh and this will not lead to any delays / Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg a fydd hyn ddim yn arwain at unrhyw oedi

For information about what we do with personal data see our privacy notice at ico.org.uk / I gael gwybodaeth am yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud â data personol gweler ein hysbysiad preifatrwydd y ico.org.uk

Information Commissioner's Office (Head Office)
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Prif Swyddfa)
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
T. 0303 123 1113 F. 01625 524510

Information Commissioner's Office
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r achos hwn wedi'i ystyried o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018) oherwydd natur y prosesu dan sylw.

**Ein hystyriaeth ar yr achos hwn**

Rwyf wedi ymchwilio a yw Heddlu De Cymru wedi cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data.

Yn ystod fy ymchwiliad, rwyf wedi nodi ar gyfer y digwyddiad cyntaf fod y swyddog dan sylw wedi delio â'r partner fel rhan o'u dyletswyddau dan y Trefniadau Diogelu Cyhoeddus Aml-Asiantaeth (MAPPA), nid o dan DVDS, a'i bod yn briodol i hyn gael ei reoli o dan MAPPA o dan yr amgylchiadau hyn.

O ran yr ail ddigwyddiad, nodwyd bod y datgeliad wedi digwydd dan amgylchiadau straenllyd tra oedd y swyddog heddlu wrthi'n cyflawni eu dyletswyddau yn unol â gweithdrefnau diogelu. Pan gafodd y datgeliad ei wneud, roedd y swyddog yn delio â'r [redacted] a oedd mewn cyflwr hynod o emosiynol a gofidus a chafodd y datgeliad ei wneud fel rhan o ymgais gan y swyddog i roi rhyw reswm am bresenoldeb yr heddlu yn yr eiddo.

Rydyn ni hefyd wedi ystyried ac wedi croesawu'r camau adfer a gymerwyd gan Heddlu De Cymru yng ngolau'r digwyddiad hwn, yn benodol fod Heddlu De Cymru wedi mabwysiadu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y digwyddiad cyntaf gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Nodir bod Heddlu De Cymru, yn ei ymateb, wedi amlinellu rhai o'r mesurau hyn sydd eisoes wedi'u cymryd.

Er hynny, ar ôl ystyried yn ofalus ac ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, rydyn ni wedi penderfynu rhoi cerydd i Heddlu De Cymru yn unol ag Atodlen 13(2) o Ddeddf 2018.

**Manylion y cerydd**

Mae'r cerydd wedi'i roi mewn perthynas â'r gweithrediadau prosesu canlynol sydd wedi torri Adran 40 Rhan 3 o Ddeddf 2018:

- Mae adran 40 yn nodi hyn: "data processed for any of the law enforcement purposes must be so processed in a manner that ensures appropriate security of the personal data, using appropriate technical or organisational measures (and, in this principle, 'appropriate security' includes protection

> against unauthorised or unlawful processing and against accidental loss, destruction or damage)."

Yn benodol, roedd yn destun pryder bod swyddogion a staff sifil dan sylw wedi methu â gweithredu mewn ffordd y disgwylid iddi gadw hunaniaeth y testunau data yn y ddau ddigwyddiad. Fe allai canlyniadau hynny fod wedi achosi cryn dipyn o niwed a gofid i'r ddau destun data.

Bernir bod Heddlu De Cymru wedi methu â sicrhau bod ei staff sifil a'i swyddogion wedi cael hyfforddiant llawn a phriodol i'w galluogi i ddeall yn llawn y tasgau roedd angen iddyn nhw eu cyflawni yn y digwyddiadau hyn.

Yn y digwyddiad cyntaf, roedd y swyddog dan sylw wedi bod mewn rôl fel swyddog Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO) [redacted]. Er hynny, ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu'r De, doedd y swyddog ddim wedi cael unrhyw hyfforddiant ar DVDS, ac er eu bod wedi cael peth hyfforddiant fel Swyddog Cyswllt Troseddau Rhywiol, doedden nhw ddim wedi cwblhau y cwrs MOSOVO Cenedlaethol, nac ychwaith wedi cael unrhyw hyfforddiant perthnasol mewn diogelu data ers Gorffennaf 2018.

Yn yr ail ddigwyddiad, dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd nad oedd y swyddog heddlu wedi cael hyfforddiant diogelu data perthnasol ers Rhagfyr 2018 ac nad oedd wedi cael hyfforddiant CSODS ers 2015.

Doedd yr hyfforddiant ddim wedi'i ddiweddaru ar gyfer y swyddogion heddlu a'r staff dan sylw a doedd Heddlu De Cymru ddim wedi sicrhau bod hyfforddiant ar gael, yn cael ei gymryd, ac yn cael ei ddeall yn llawn gan y rhai dan sylw. Pe bai hynny wedi cael ei wneud, mae'n debyg y byddai'r swyddogion a'r staff sifil wedi bod yn fwy gofalgar wrth ryngweithio â'r partïon a fu'n rhan o'r ddau ddigwyddiad, a allai fod wedi atal y ddau ddigwyddiad rhag codi.

At hynny, doedd dim canllawiau priodol na phroses wedi'i chofnodi yn eu lle ac ar gael er mwyn i swyddogion heddlu a staff sifil ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran yr hyn a allai a'r hyn na allai gael ei gyfathrebu i'r partïon dan sylw, yn enwedig o ran achosion lle mae MAPPA a DVDS yn gorgyffwrdd. Arweiniodd y diffygion hyn at ddatgelu gwybodaeth bersonol yn y ddau ddigwyddiad a arweiniodd at ofid i'r testunau data dan sylw.

Ystyriwyd hefyd y ffaith bod Heddlu De Cymru wedi bod yn destun Archwiliad gan yr ICO ym mis Medi 2019. Er bod gan yr heddlu hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a oedd wedi'i gydnabod yn genedlaethol, nododd yr archwiliad hwnnw nad oedd rhaglen hyfforddi ffurfiol ar waith. Heb raglen hyfforddi

gyffredinol, dywedwyd bod perygl na fyddai staff Heddlu De Cymru yn cael hyfforddiant perthnasol ac amserol mewn llywodraethu gwybodaeth.

Awgrymodd adroddiad yr archwiliad y gallai hyn arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg y swyddogion a'r staff o'u cyfrifoldebau gan gynyddu'r risg y byddai tor data'n digwydd. Gan hynny, bernir bod Heddlu De Cymru, cyn i'r ddau ddigwyddiad yma ddigwydd, yn ymwybodol o welliannau roedd eu hangen mewn perthynas â hyfforddi ond ei fod wedi methu â sicrhau bod hyfforddiant priodol wedi'i roi i'r swyddogion dan sylw yn y ddau ddigwyddiad hyn.

Oherwydd hyn, bernir ei bod yn briodol rhoi cerydd am dorri Adran 40 Rhan 3 o Ddeddf 2018.

**Rhagor o gamau a argymhellir**

Mae'r Comisiynydd yn argymell y gallai Heddlu De Cymru gymryd camau penodol i wella'i gydymffurfiaeth â Deddf 2018. Yn benodol:

1. Dylai Heddlu De Cymru sicrhau bod yr holl argymhellion a wnaed yn adroddiad yr IOPC yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn llwyr. Os nad yw'r rhain wedi'u cyflawni'n barod, yna cyn gynted ag y bo modd.

2. Dylai Heddlu De Cymru sicrhau bod y llinellau cyfathrebu yn glir unwaith y bydd cais am wybodaeth yn dod i law fel bod yr holl swyddogion heddlu a staff sifil yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ymdrin â datgeliadau. Ymhellach, dylai swyddogion sicrhau bod pob cyfathrebiad yn cael ei anfon i'r timau cywir dan sylw.

3. Dylai Heddlu De Cymru ystyried adolygu ei weithdrefnau ynglŷn ag adroddiadau diogelu data, a'r hyn sy'n cyfrif fel mater diogelu data, er mwyn sicrhau bod pob digwyddiad yn y dyfodol yn cael ei adrodd yn gywir ac o fewn yr amserlen arferol o 72 awr.

Awgrymiadau yw'r mesurau uchod, ond hoffwn nodi, os daw rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn i'r amlwg, neu os rhoddir gwybod inni am unrhyw ddigwyddiadau neu gwynion pellach, y byddwn yn edrych eto ar y mater hwn a bod modd ystyried camau rheoleiddio ffurfiol pellach o ganlyniad.

Mae rhagor o wybodaeth am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data sy'n berthnasol i'r achos hwn ar gael drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

ico.
Information Commissioner's Office
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/

Rydym yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i'n gweithgarwch a'n canlyniadau rheoleiddio, gan fod hyn yn ein helpu i gyflawni'n nodau strategol o ran cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Efallai y byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am achosion a adroddir i ni, er enghraifft lle rydym yn meddwl bod yna gyfle i sefydliadau eraill ddysgu neu pan fo'r achos yn amlygu risg neu fater newydd.

Gan hynny, efallai y byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymchwiliad hwn i roi cyhoeddusrwydd i'n hawdurdod rheoleiddio a'n pwerau newydd o dan y GDPR. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'n Polisi Cyfathrebu Gweithgareddau Rheoleiddio a Gorfodi, sydd ar gael ar-lein drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

https://ico.org.uk/media/about-the-ico/policiesandprocedures/1890/ico_enforcement_communications_policy.pdf

Rhowch wybod os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â hyn.

Diolch ichi am eich cydweithrediad a'ch cymorth yn ystod ein hymchwiliad.

Bellach rydym o'r farn bod y mater wedi'i gau.

Yn gywir

[redacted]
Swyddog Achosion Arweiniol
Ymchwiliadau
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
[redacted]

Sylwch ein bod yn aml yn cael ceisiadau am gopïau o'r ohebiaeth a gyfnewidiwn â thrydydd partïon. Rydym yn dod o dan yr holl gyfreithiau rydyn ni'n ymdrin â nhw, gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gallwch ddarllen am y rhain ar ein gwefan (www.ico.org.uk).

Mae'r ICO yn cyhoeddi manylion sylfaenol am y cwynion, yr ymchwiliadau, a'r troseddau data hunan-hysbysu y mae'n eu trafod. Mae'r manylion hyn yn cynnwys enw'r sefydliad dan sylw,
dyddiadau agor a chau'r achos, a'r canlyniad. Mae enghreifftiau o'r setiau data sydd wedi'u cyhoeddi i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon:

(https://ico.org.uk/about-the-ico/our-information/complaints-and-concerns-data-sets/).

Dydyn ni ddim yn cynnwys data personol yn y setiau data sy’n cael eu cyhoeddi a byddwn yn tynnu enwau unig fasnachwyr etc cyn eu cyhoeddi. Dydyn ni ddim chwaith yn cyhoeddi achosion ynglŷn â chwynion CCTV domestig ac mae’n bosibl na fyddwn yn cyhoeddi achosion penodol eraill os ydyn ni’n teimlo nad yw'n briodol gwneud hynny dan yr amgylchiadau.

Os ydych am godi gwrthwynebiad i ni gyhoeddi achos yn y setiau data, p'un a ydynt rydym wedi ei gyhoeddi eto, cysylltwch â ni yn egluro eich rhesymau dros hyn yn accessicoinformation@ico.org.uk.

Dywedwch a ydych o’r farn bod unrhyw ran o'r wybodaeth a anfonwch atom yn gyfrinachol. Dylech ddweud pam hefyd er mwyn inni gymryd hynny i ystyriaeth. Er hynny, sylwch mai dim ond pan fo rheswm da dros wneud hynny y byddwn yn dal gwybodaeth yn ôl.

I gael gwybodaeth am yr hyn yr ydyn ni’n ei wneud â data personol, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.ico.org.uk/privacy-notice